CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 21 GORFFENAF 2015

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer – Cyng W L Davies

Cynghorwyr
B Owen, W R Owen, W T Owen, H W Roberts, A Hopcyn, T Thomas, C Williams, G Thomas (c) M Sarnacki

1.Ymddiheuriadau
E Lovgreen, M Thomas, G Thomas, E Hughes, I C Thomas, A Bohana, K Williams

2.Cyhoeddiadau'r Maer

Nodwyd marwolaeth cyn cynghorydd Mrs Nancy Bingley

Cyflwyno gwobrau i'r Cadetiaid
Sul y Maer Conwy
Cyflwyno gwobrau Ysgol y Gelli
Parti Ysgol y Gelli
Gŵyl Arall yn y Castell
Cyflwyno gwobrau Carnifal Castell

3.Datgan Buddiant Personol

W T Owen – cynllunio
W R Owen – cynllunio a eitem 9 Unllais
G Thomas – eitem 9 o gofnodion panel cyllid sef y Land Train

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Eitem cynllunio hwyr Tir wrth Penningtons

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i) Cyngor, 7 Gorffennaf 2015
ii) Panel Cyllid a Staff 13 Gorffennaf 2015

Penderfynwyd

i) Derbyn fel rhai cywir
ii) Panel cyllid

Eitem 5

cais clwb Ieuenctid – cafwyd trafodaeth eang am bryderon toriadau Cyngor Gwynedd ar effaith posib ar y gwasanaeth

Penderfynwyd

Gofyn wrth Sioned Williams dod yma fel siaradwr gwadd i egluro am ddyfodol y clwb cyn rhyddhau unrhyw arian

Eitem 6

Llungopïwr –

Penderfynwyd cefnogi argymhelliad y Pwyllgor cyllid sef peidio gwneud dim nes bod y cytundeb presennol yn gorffen

Eitem 7

Ffens coeden Nadolig

Penderfynwyd

Cefnogi argymhelliad y pwyllgor cyllid sef mynd ati i brynu ffens 4 troedfedd

Eitem 8

"Pin badges "

Penderfynwyd

Cefnogi argymhelliad y panel cyllid sef archebu 2000 o fathodynnau a 10 "tie bar" a hefyd edrych i mewn i pris pennant

Eitem 9

Hysbysebu ar y land train

Penderfynwyd

Oherwydd yr hinsawdd ariannol fydd yn wynebu'r Cyngor peidio a hysbysebu

Eitem 10

Costau IT

Penderfynwyd

Cefnogi argymhellion y panel cyllid sef i gael costau newydd ar awgrymiadau'r clerc

6. Ceisiadau Cynllunio

I ystyried y Ceisiadau Cynllunio
Penderfynwyd

1. C15/0694/14/CR **Cytuno**
Gosod ffenestri newydd gwydr dwbl

Swyddfa Cyngor Gwynedd, Bloc J,
Pencadlys, Shire Hall Street, Caernarfon

****

Eitem Brys :

C15/0730/14/LL **Cytuno**
Newid defnydd tir ar gyfer cadw sgipiau gan gynnwys gwaith peirianyddol, mynedfa newydd o dir cyfagos a ffens diogelwch

Tir wrth/Land by Penningtons, Cibyn.
Caernarfon

7. Cyfrifon

I gymeradwyo y biliau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

8. Dogfen Weithredol y Cyngor

Penderfynwyd
I'r clerc

1. Dilyn fyny a'r sawl sydd dal heb sortio DBS
2. Trefnu cyfarfod o'r pwyllgor personél cyn y Cyngor Nesaf

9. Unllais

i) Cynhadledd 3 Hydref
ii) Neges gan Y Bwrdd Iechyd

Penderfynwyd

i) Eisoes wedi enwebu Cyng H W Roberts a Cyng C Wiliams
ii) Estyn gwahoddiad i gynrychiolydd o'r Bwrdd Iechyd

10. Cyngor Gwynedd

i) Ymateb e-bost parthed Bwrdd Galeri
ii) Angen enwebu enw o mis Hydref

Penderfynwyd

i) Derbyn er gwybodaeth
ii) Gofyn am gopi o gyfansoddiad y Galeri cyn gwneud penderfyniad

11.Planters

Cafwyd trafodaeth eang ar y pwnc yn dilyn sylwadau bod y blodau eleni ddim yn rhai addas i blanters a teimlo bod angen mwy o ddŵr.

Penderfynwyd

Gofyn am bris i ail lenwi am gyfnod yr haf a bod gan y Maer a'r Dirprwy hawl i weithredu ar y pwnc gan ystyried hefyd os fydd angen dwr mwy nag unwaith .

12.E-bost Laurence Smith

Enwebu Cynrychiolwyr Grŵp Llywio newydd

Penderfynwyd

Enwebu Cynghorydd Ann Hopcyn ond gofyn bod y 4 cynrychiolydd yn cael mynychu cyfarfodydd

13. Gyngor Gwynedd

Her Gwynedd - Copi o Gyflwyniad o'r nosweithiau Cynghorau Cymuned
Yn dilyn trafodaeth eang ar y pwnc

Penderfynwyd

I'r clerc awgrymu dau neu 3 dyddiad sydd yn gyfleus dros gyfnod yr haf a phawb ymateb er mwyn mynd ar mwyafrif ,gan ofyn wrth Anwen Davies ddod i'r cyfarfod ag agor y trafodaeth wedyn mynd.

14. Nodiadau cyfarfod Glannau Caernarfon

Penderfynwyd

Derbyn er gwybodaeth a diolch am yr adroddiad

15. Cystadleuaeth Gerddi

Eglurodd y clerc bod angen gweddnewid y sefyllfa , tydi CCG ddim efo cystadleuaeth felly angen edrych ar un ni .Angen edrych ar ffurf newydd efallai hysbysebu yn y wasg a bod rhaid i bobl ofyn i gael eu beirniadu ac yn y blaen.

Penderfynwyd

Parhau eleni yn y fformat bresennol ,ond dim ond darparu te/coffi a bisgedi ar y noson i arbed rywfaint o gostau i'r Cyngor a gofyn barn cryf i'r enillwyr ar y noson

16.Cwestiynau

Dim

Gorffennodd y cyfarfod am 7.10

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....